Ysgol Gymraeg Llangennech

Maes y Dderwen, Llangennech, SA14 8YB
andersong7@hwbmail.net
http://www.ysgolgymraegllangennech.cymru

Ymateb i Holiadur y Fforwm Rieni am ddysgu yn y cartref.

Annwyl Riant / Gwarchodwr,

Yn sgil canlyniadau holiadur i rieni dweddaraf, hoffwn eich hysbysu am addasiadau i'r dysgu ar lein. Mae hon yn broses newydd i bawb ac rydym yn falch o'r ymatebion cadarnhaol a gawsom hyd yma. Mae eich llais chi yn allweddol wrth i ni i gydweithio i ddatblygu systemau newydd o weithio adref.
Mae'r prif argymhellion yn cynnwys:

- Gweithgareddau dyddiol yn hytrach na thasgau pythefnosol
- Mwy o ddull dysgu cyfunol lle mae gan y disgyblion fynediad at rywfaint o gyfarwyddyd wyneb yn wyneb gan yr athro.

Wrth fyfyrio, gwelsom mai'r tasgau mwyaf poblogaidd oedd y tasgau penodol e.e. taflenni gwaith mathemateg a thasgau darllen a deall, ac felly byddwn yn parhau gyda'r math yma o wiethgareddau.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r platfform J2E i rannu tasgau. Bydd un ffolder yn cael ei rhannu gyda'r disgyblion ar fore Llun yn cynnwys gweithgareddau am wythnos. O fewn y ffolder, bydd ffeiliau dyddiol yn cynnwys 3 tasg y dydd. Bydd amrywiaeth o waith llythrennedd, rhifedd a thematig yn cael eu gosod bob dydd. Bydd fideo byr o'n hathrawon yn rhoi cyfarwyddiadau i gyd-fynd â rhai o'r tasgau dyddiol.
Byddwn yn gosod geiriau sillafu ar fore Llun ac yn anfon negeseuon wedi'u recordio gan athrawon ar fore Gwener yn gweinyddu'r profion sillafu a mathemateg pen. Mae croeso i'r plant gyflawni'r tasgau hyn mewn unrhyw ffurf h.y ar bapur neu ar j2e5.

Mae llawer o rieni wedi mynegi pryder am ddefnydd eu plant o'r iaith Gymraeg. O ganlyniad, byddwn yn gosod tasgau Gymraeg byr bob dydd i'w cwblhau – bydd rhain yn cynnwys ymarferion patrymau brawddeg, geirfa a gramadeg. Bydd cyfarwyddyd Saesneg i rieni di-Gymraeg er mwyn eich cefnogi.

Gofynnwn i ddisgyblion y ffrwd Gymraeg i geisio eu gorau glas i gwblhau tasgau yn Gymraeg yn hytrach na dewis y tasgau a osodwyd ar gyfer y plant y ffrwd Saesneg.

Diolch unwaith yn rhagor i chi am ymateb mor gadarnhaol i'r holiadur ac am y geiriau caredig sydd wedi'u derbyn yn ystod y cyfnod anodd hwn. Hyderaf y bydd y newidiadau hyn yn parhau i helpu i ennyn diddordeb y disgyblion ymhellach.

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus drwy'r cyfnod digynsail hon.

Yn gywir,

Gary Anderson

Ysgol Gymraeg Llangennech
Maes y Dderwen, Llangennech, SA14 8YB
andersong7@hwbmail.net
http://www.ysgolgymraegllangennech.cymru

Response to home learning following the Parent Forum questionnaire

Dear Parent/Guardian,

As a result of our parent questionnaire, we would like to inform you of some changes to our online learning. This is a new process for all involved and we are pleased with positive responses that we have received thus far. Your voice is important as we work collabroatively to further develop our online learning system.
The main recommendations included:

- Daily activities rather than fortnightly tasks
- More of a blended learning approach where the pupils have access to some face-to-face instruction from the teacher.

On reflection, we found that the most popular tasks competed by students were specifically set tasks e.g maths worksheets and comprehension tasks, therefore we will continue with these type of tasks.

We will continue to use the J2E platform to share tasks. One folder will be shared with the pupils on a Monday morning dated for a week. Within the folder, will be daily files which will include 3 tasks a day. A variety of literacy, numeracy and thematic work will be set every day. Short videos of our teachers giving instructions will appear alongside some of these daily tasks.

We will set spelling words on a Monday morning and send recorded messages from teachers on a Friday Morning administering a spelling test and a mental maths test. The children are welcome to complete these tasks in any form i.e on paper or on j2e5.

Many parents have expressed concern about their child's use of the Welsh language. Therefore, we will place a short Welsh task every day to complete- these will include practicing sentence patterns, vocabulary and grammar. There will be English instruction for non Welsh-speaking parents to support.

We ask that pupils in the Welsh stream try their best to complete tasks in Welsh rather than choosing the tasks set for the children in the English stream.

I would like to thank you for the positive remarks on the questionnaire and for the kind words of gratitude received during this difficult time. We hope that these changes will help to engage the pupils further. We would like to thank you for your continued support through these unprecedented times.

Yours sincerely,

Gary Anderson